# Tuag at Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr

## Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg



Paratowyd gan y Grŵp Cynllunio Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

CYMRAEG

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adran Un: Cyd-destun | 1 |
| Adran Dau: Datblygu Sgiliau | 4 |
| Adran Tri: Cynllunio ar gyfer Llwyddiant | 7 |
| Adran Pedwar: Mesur Llwyddiant | 18 |
| Adran Pump: Gweithredu'r Weledigaeth | 20 |
| Atodiad 1: Aelodau’r Grŵp Cynllunio Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg a gyflwynodd yr adroddiad hwn | 27 |

## Adran Un: Cyd-destun

1. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod y nod uchelgeisiol o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Bydd rôl allweddol i addysg a hyfforddiant ôl-orfodol er mwyn sicrhau bod y targed hwn yn cael ei gyrraedd.

2. Y nod allweddol ar gyfer addysg ôl-orfodol a amlinellir yn *Cymraeg 2050*, y strategaeth iaith genedlaethol newydd, yw –

   > *Datblygu darpariaeth addysg ôl-orfodol sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, ni waeth pa mor rhugl eu Cymraeg, i ddatblygu sgiliau yn yr iaith i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle.*

3. Roedd *Symud Cymru Ymlaen*, y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 2016-2021, yn gwneud ymrwymiad i *"archwilio'r posibilrwydd o ehangu cylch gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynnwys addysg bellach"*. Drwy adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen a sefydlwyd i ystyried y mater hwn, ac ymateb dilynol y Llywodraeth a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017, cyfarwyddwyd y Coleg i sefydlu bwrdd cynghori i roi cyngor ar yr ymyraethau a fyddai'n ofynnol yn y dyfodol er mwyn datblygu darpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg, gyda'r bwriad o ddatblygu Cynllun Gweithredu ffurfiol. Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet y cai'r Cynllun Gweithredu ei ddatblygu ar y cyd â swyddogion y Llywodraeth ac y disgwyliai i'r bwrdd fod yn feiddgar ac yn uchelgeisiol yn ei argymhellion.

4. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn seiliedig ar adroddiad a gyflwynwyd gan y Grŵp Cynghori (adrannau un i dri) ac mae'n canolbwyntio'n benodol ar y sectorau Addysg Bellach a Phrentisiaeth. Mae'n cefnogi polisi *Cymraeg 2050* a hefyd yn cyfrannu at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015: *"Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu"*.

5. Er mwyn cyrraedd targed y miliwn o siaradwyr, mae gofyn am ystod o ddatblygiadau. I'r rhai sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, rhaid cynnig ystod o gyfleoedd i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau iaith, yn y gweithle ac yn gymdeithasol; i'r rhai sy'n siarad peth Cymraeg, rhaid rhoi cefnogaeth iddynt ddod yn siaradwyr hyderus; ac i'r rhai nad ydynt eto'n siarad Cymraeg, rhaid rhoi cyfleoedd iddynt gaffael sgiliau iaith a/neu eu cefnogi i weithredu'n effeithiol mewn amgylchedd dwyieithog.

6. Mae cyflogwyr yn fwyfwy ymwybodol o fanteision sgiliau dwyieithog. Yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, mae tystiolaeth yn awgrymu bod nifer y swyddi sy'n gofyn am sgiliau dwyieithog wedi cynyddu. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn y sector cyhoeddus, lle mae fframwaith cyfreithiol newydd Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr roi sylw penodol i sgiliau dwyieithog eu gweithlu. Mae'r gofyn am sgiliau yn y Gymraeg wedi dod yn thema amlwg hefyd drwy'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, a bydd cydweithio agosach gyda'r Partneriaethau yn dod yn flaenoriaeth.

7. Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd y Llywodraeth *Y Gymraeg mewn Addysg: Cynllun Gweithredu 2017-2021*, oedd yn amlinellu'r cyfeiriad ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg orfodol. Mae'r cynllun yn adeiladu ar y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a gyhoeddwyd yn 2010 ac mae'n cefnogi gweledigaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. Bydd gweithredu cynllun gweithredu y Gymraeg mewn Addysg yn rhan annatod o'r strategaeth a amlinellir yn yr Adroddiad hwn: cynigir y bydd rhagor o ddysgwyr yn gadael addysg statudol ac yn cychwyn yn y sectorau ôl-16 gyda sgiliau yn y Gymraeg, gan gynyddu'r potensial a'r gofyn i ddatblygu darpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg. Bydd llwyddiant y sector statudol yn dibynnu ar gael rhagor o gynorthwywyr dysgu sy'n siarad Cymraeg a darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg cyn-ysgol er mwyn cefnogi'r cyfnod addysg statudol, fydd ynddo'i hunan yn dibynnu ar well darpariaeth ôl-16.

8. Ni fu'r un buddsoddiad a phwyslais strategol ar wneud cynnydd yn y sectorau ôl-orfodol o gymharu, er enghraifft, â'r sector Addysg Uwch. Gyda chymorth y Llywodraeth, gwnaed cynnydd nodedig mewn rhai lleoliadau, ac eto bu hyn yn ddibynnol yn aml ar awydd strategol darparwyr unigol a/neu ewyllys da staff unigol. Mae gwaith sylweddol i'w wneud er mwyn datblygu darpariaeth ôl-orfodol cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod dysgwyr yn manteisio ar y ddarpariaeth honno.

9. O ystyried nifer y myfyrwyr sydd wedi'u hymrestru bob blwyddyn yn y sectorau Addysg Bellach a Phrentisiaeth a'u cysylltiad uniongyrchol â gwasanaethau a gwaith yn lleol, mae potensial anferthol i'r sectorau hyn wneud cyfraniad sylweddol at y nod o filiwn o siaradwyr erbyn 2050. Mae hyn yn arbennig o amlwg o ystyried y ffaith bod dysgwyr yn y sectorau Addysg Bellach a Phrentisiaeth yn debygol iawn o aros yn y cymunedau lle buont yn astudio.

10. Mae gwireddu'r potensial amlwg heb fuddsoddiad a chynllun cenedlaethol i gefnogi cynllun o'r fath yn her. Dyma'r cyd-destun polisi a arweiniodd at benderfyniad y Llywodraeth, gan weithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, i sefydlu Grŵp Cynghori o uwch swyddogion o'r sectorau Addysg Bellach a Phrentisiaeth er mwyn rhoi ystyriaeth fanwl i'r cyfleoedd a'r heriau sy'n codi drwy gefnogi gwaith sylweddol o ddatblygu addysg ddwyieithog yn y sectorau hyn. Mae'r cynllun hwn yn seiliedig ar y dybiaeth bod potensial enfawr gan y sectorau Addysg Bellach a Phrentisiaeth i gyfrannu: ei nod yw esbonio sut y gwireddir y potensial hwn.

11. O fod wedi amlinellu'r cyd-destun lefel uchel, bydd y ddogfen hon yn bwrw ymlaen i amlinellu model ar gyfer datblygu sgiliau. Bydd y model datblygu sgiliau, gan ganolbwyntio ar brofiad y dysgwr, yn sail wedyn ar gyfer dadansoddiad o'r meysydd allweddol i roi sylw iddynt. Ymhob un o'r meysydd allweddol hyn, nodir cyfres o gamau gweithredu posib. Bu'r camau gweithredu hyn yn destun trafodaeth fanwl rhwng swyddogion y Coleg Cymraeg a swyddogion y Llywodraeth, ac maent bellach yn sail ar gyfer Cynllun Gweithredu a gyflwynir i Weinidogion yn amlinellu'r cyfuniad o gamau sy'n ddichonadwy yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae'r broses hon hefyd yn nodi'r partneriaid allweddol a fydd yn gyfrifol am y gwahanol gamau penodol. O'u cymryd gyda'i gilydd, gallai'r camau hyn fod yn sail ar gyfer gwneud camau breision o fewn

Addysg Bellach a Phrentisiaethau a gwneud cyfraniad sylweddol at nod y Llywodraeth o greu miliwn o siaradwyr.

12. Ar ddiwedd y Cynllun cynigir cyfres o fesuryddion ar gyfer asesu'r cynnydd ac awgrymiadau o strwythur ar gyfer bwrw ymlaen â'r strategaeth.

## Adran Dau: Datblygu Sgiliau

13. Mae dros 170,000 o ddysgwyr yn y sectorau Addysg Bellach a Phrentisiaeth yng Nghymru, ac mae tua dau draean ohonynt yn y sector Addysg Bellach. Mae gennym wybodaeth sylweddol am sgiliau iaith y dysgwyr hyn, sydd wedi dod o arolygon Llais y Dysgwr a data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR). Roedd yr arolygon hyn yn gofyn i ddysgwyr am eu sgiliau iaith a'u hagweddau o ran gwneud eu hastudiaethau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae'r Adroddiad hwn hefyd yn tynnu ar brosiect ymchwil sylweddol i agweddau dysgwyr a gomisiynwyd yn 2018.

14. O ran sgiliau iaith, mae'r darlun Cymru gyfan fel a ganlyn:

| | Rhugl | Sgyrsiol | Sylfaenol | Dim sgiliau yn y Gymraeg |
|---|---|---|---|---|
| Addysg Bellach | 11% | 5% | 36% | 49% |
| Prentisiaeth | 11% | 4% | 27% | 58% |

*Tabl 1: Sgiliau Iaith (Cymraeg)*

15. Mae'r darlun unigol ar gyfer gwahanol ddarparwyr yn amrywio'n sylweddol, ond mae gan bob darparwr garfan o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg, er bod maint y carfanau hynny'n amrywio.

16. Mae tua 10% o'r dysgwyr yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl. Fodd bynnag, mae tua hanner y dysgwyr yn nodi bod ganddynt rai sgiliau yn y Gymraeg, er mai ar lefel ddigon sylfaenol y mae hynny yn aml.

17. Cadarnheir y data hwnnw gan y wybodaeth ganlynol ynghylch dewis iaith astudio:

| | Cymraeg yn unig | Dwyieithog | Saesneg yn unig |
|---|---|---|---|
| Addysg Bellach | 1% | 11% | 89% |
| Prentisiaeth | 1% | 9% | 90% |

*Tabl 2: Dewis iaith astudio*


18. Yma, gwelwn berthynas eglur rhwng y dysgwyr hynny sy'n rhugl eu Cymraeg a'r nifer sy'n datgan y byddent yn dewis astudio yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Ar y cyfan, mae ychydig dros un ymhob deg yn dweud yr hoffent astudio'n ddwyieithog. Mae angen gofal wrth ddehongli'r data hyn. Mae ymchwil a gynhaliwyd mewn cyd-destunau eraill o ran gwasanaethau ac addysg Gymraeg yn awgrymu mai lleiafrif yr ymatebwyr fyddai'n dewis darpariaeth Gymraeg yn hyderus; fodd bynnag, byddai grŵp sylweddol fwy yn dewis darpariaeth ddwyieithog petaent yn cael cefnogaeth a sicrwydd. Mae'r data hwn yn awgrymu y bydd angen rhoi ystyriaeth fanwl i'r seilwaith ar gyfer cefnogi dysgwyr i ddewis dysgu'n ddwyieithog, a chynllunio'r seilwaith hwnnw'n ofalus er mwyn sicrhau bod y nifer uchaf posib yn manteisio ar y ddarpariaeth.

19. Cefnogir y canfyddiadau hyn gan ganlyniadau cychwynnol ymchwil ar agweddau dysgwyr a gomisiynwyd gan y Coleg ym mis Ebrill 2018. Canfu'r gwaith fod diddordeb y dysgwyr yn y sgiliau hynny fydd o gymorth uniongyrchol iddynt yn y byd gwaith. Byddai croeso felly i gyfleoedd i wella sgiliau dwyieithog yn ymwneud â gwaith. Ar y llaw arall, ychydig o frwdfrydedd sydd dros astudio'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg lle nad yw'r sgiliau yn uniongyrchol berthnasol i'r farchnad lafur. Mae peth tystiolaeth hefyd o agweddau negyddol tuag at yr iaith, y gallai'r dysgwyr fod wedi'u datblygu mewn profiadau addysgol blaenorol. Mae'r heriau sy'n wynebu dysgwyr nad ydynt o reidrwydd yn hyderus iawn beth bynnag yn cael eu dwysáu mewn cyd-destun ieithyddol lle nad ydynt yn teimlo'n gwbl gyfforddus.

20. Mae'r data a gyflwynir hefyd yn awgrymu'n bendant mai dysgu 'dwyieithog' yn hytrach na dysgu 'cyfrwng Cymraeg' y mae dysgwyr yn ei ffafrio. Nid yw union ddealltwriaeth y dysgwyr o'r termau hyn yn cael ei harchwilio'n fanwl, ond yn sgil y canfyddiadau hyn byddem yn awgrymu, o ran cyflwyno'r neges, y dylid cyfleu'r datblygiadau sy'n cael eu cynnig yma i ddarpar ddysgwyr fel dysgu 'dwyieithog' yn hytrach na dysgu 'cyfrwng Cymraeg'. Mae hyn yn adlewyrchu realiti'r ddarpariaeth a'r gweithle yng Nghymru.

21. O ganlyniad, cynigir y model canlynol. Mae'n cynnig strwythur lle bydd yr holl ddysgwyr yn y sectorau Addysg Bellach a Phrentisiaeth yn cael eu targedu a'u cefnogi gan ymyraethau a fyddai'n galluogi'r holl ddysgwyr i gynnal a datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg:

22. **Model Datblygu Sgiliau**




*Ffigwr 1: Model datblygu sgiliau*

23. Mae'r model a gyflwynir uchod yn awgrymu pedwar maes posib i ganolbwyntio arnynt wrth wneud y gwaith cynllunio manwl.

24. Gan ddechrau ar waelod y pyramid, ystyriwn i ba raddau y mae'n ofynnol bod gan bob dysgwr **ymwybyddiaeth** o'r Gymraeg a'r ffordd mae'n ymwneud â'u rhaglen o astudio. Byddai hyn yn cwmpasu nid yn unig ymwybyddiaeth iaith ond hefyd, ar lefel gychwynnol, terminoleg sylfaenol a thrafodaeth ar ddefnydd o'r Gymraeg mewn maes penodol. O gymryd un enghraifft, mae gofyn i ddysgwyr sy'n dilyn prentisiaeth neu raglen alwedigaethol amser llawn ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol fod â dealltwriaeth o ddwyieithrwydd, yr amodau penodol lle gallai claf/cleient fynd yn ôl i'w hiaith gyntaf, a sut y gellir gwella gofal drwy gynnig peth gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

25. Gan symud i'r ail lefel, awgrymwn y byddai mwyafrif y dysgwyr yn cael budd o fod â **dealltwriaeth** o'r Gymraeg. Dylai dysgwyr, er enghraifft, allu ynganu enw eu claf/cleient yn hyderus a deall sgwrs sylfaenol yn Gymraeg. Er mai ar lefel gychwynnol y byddai'r elfennau hyn, byddai'r pwyslais yma ar sylfeini'r iaith yn hytrach na dim ond y cyd-destun.

26. Mae'r drydedd lefel yn ymwneud â **hyder** dysgwyr i ddefnyddio'u sgiliau yn y Gymraeg. Yma, byddai'r pwyslais nid yn unig ar ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â'r Gymraeg ond ar gefnogi dysgwyr i fod yn hyderus yn defnyddio'r Gymraeg i gyfathrebu i lefel benodol mewn cyd-destun proffesiynol: er enghraifft, drwy gefnogi plant bach sy'n chwarae yn Gymraeg mewn meithrinfa, drwy annog pobl ifanc mewn tîm pêl-droed lleol yn Gymraeg, drwy ymdrin ag ymholiad ffôn cychwynnol yn Gymraeg neu drwsio boeler ar ôl trafod y broblem gyda'r cwsmer yn Gymraeg. Mae nifer y dysgwyr a gaiff eu targedu yma yn debygol o fod yn is na'r categori dealltwriaeth, ond er hynny mae nifer o ddysgwyr nad ydynt yn disgrifio'u hunain fel siaradwyr Cymraeg rhugl a fyddai'n cael budd o'r ddarpariaeth hon.

27. Disgrifir y bedwaredd lefel fel **rhuglder**: lle gall dysgwyr weithredu'n hyderus ddwyieithog yn eu dewis alwedigaeth. Yma, rydym yn cyfeirio at ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg ac sy'n astudio elfen sylweddol o'u rhaglen drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai angen ystyried y diffiniadau manwl yng nghyd-destun y canllaw data manwl sydd i'w ddatblygu. Byddem yn disgwyl i'r dysgwyr hyn allu gweithredu'n ddwyieithog mewn cyd-destun proffesiynol, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Byddai disgwyl i ddysgwyr y categori hwn felly allu gweithio mewn meithrinfa Gymraeg, neu gynhyrchu nodiadau cleifion yn Gymraeg, neu arwain cyrsiau hyfforddi a rheoli yn Gymraeg. Yn y bôn, y dysgwyr hyn yn y pen draw fyddai asgwrn cefn gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd.

28. Mae'r model hwn yn awgrymu y gellid targedu pob dysgwr yn y sectorau Addysg Bellach a Phrentisiaeth gydag ymyraethau ar un neu ragor o'r lefelau hyn er mwyn cynyddu eu **hymwybyddiaeth**, eu **dealltwriaeth**, eu **hyder** neu eu **rhuglder**. Bydd pwyslais y gweithgareddau yn amrywio – yn ôl y pwnc ac yn ôl y darparwr – ond mae'r fframwaith a awgrymir uchod yn cynnig cyd-destun cenedlaethol i gefnogi'r gwaith o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

## Adran Tri: Cynllunio ar gyfer Llwyddiant

29. A ninnau wedi trafod cyd-destun Addysg Bellach a Phrentisiaeth a nodi nifer o heriau a chyfleoedd, trown yn awr at elfennau allweddol y cynllun. Yr uchelgais yw cyflwyno gweledigaeth holistaidd o'r modd y gellid cefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog: mae potensial i bob elfen gyfoethogi'r ddarpariaeth, ond hefyd, os byddant yn absennol, i danseilio darpariaeth o'r fath.

30. Y Cynllun Gweithredu hwn yw cam cychwynnol ymrwymiad polisi mwy hirdymor, a fydd yn canolbwyntio ar darged 2050. Gellir cyflawni rhai o'r elfennau o weithgarwch a nodir isod o fewn misoedd, gan sicrhau canlyniadau eglur o fewn blwyddyn i ddeunaw mis. Bydd eraill – fel datblygu sgiliau dwyieithog y gweithlu Addysg Bellach a Phrentisiaeth – yn gofyn am fuddsoddiad a gwaith parhaus dros gyfnod o sawl blwyddyn. Mae union amserlen y cynllun gweithredu manwl, drwy gytundeb gyda'r Llywodraeth, yn seiliedig ar gyfnod o bum mlynedd o leiaf, gyda gorwel cynllunio deng mlynedd yn debygol o fod yn ofynnol ar gyfer rhai camau gweithredu.

31. Er mwyn sicrhau llwyddiant y strategaeth hon, mae'r Grŵp o'r farn bod angen rhoi sylw i'r elfennau canlynol:

- Profiad y Dysgwr
- Capasiti Staffio
- Darpariaeth
- Adnoddau
- Asesu a Chymwysterau
- Ymwneud â Chyflogwyr

32. Trown ein sylw yn awr at yr elfennau hyn – neu bileri, os meddyliwn am bob elfen fel piler sydd angen hyn a hyn o sylw er mwyn sicrhau bod cyfanrwydd strwythurol y cynllun ehangach yn cael ei gynnal. Ar gyfer pob piler, awgrymir nifer o gamau. Maent yn adlewyrchu ystod o gyfarfodydd a thrafodaethau gyda'r sectorau Addysg Bellach a Phrentisiaeth dros y flwyddyn ddiwethaf.

33. Yn dilyn cyflwyno adroddiad y Grŵp Cynghori ym mis Gorffennaf 2018, datblygwyd Cynllun Gweithredu. Mae'r Cynllun yn cynnwys mwyafrif yr elfennau a gynhwysir yma, a chynigir ystod eang o gamau er mwyn sicrhau trafodaeth lawn a meithrin dealltwriaeth o'r camau allweddol a fydd yn sicrhau llwyddiant pob piler. Rydym yn hyderus y bydd yr ystod o gamau y cytunwyd arnynt (o'u hariannu'n briodol) yn ateb galwad yr Ysgrifennydd Cabinet am gynllun 'beiddgar' ac 'uchelgeisiol'. Mae ochr arall y geiniog hefyd yn wir: os mai dim ond rhai o'r heriau a nodwyd fydd yn cael sylw yn y cynllun a/neu os na roddir adnoddau digonol iddo, prin fydd y gobaith o gyflawni ein hamcan o wneud cyfraniad o sylwedd at y nod o filiwn o siaradwyr.

**Profiad y Dysgwr**

**Nod: Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n datblygu rhuglder, hyder ieithyddol, dealltwriaeth ieithyddol ac ymwybyddiaeth ieithyddol**

**Nod: Cynyddu defnydd dysgwyr ôl-16 o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol ac anffurfiol**

**Nod: Cefnogi dysgwyr i astudio'n ddwyieithog ym meysydd Addysg Bellach a Phrentisiaeth**

34. Mae sicrhau bod dysgwyr, llawn amser a phrentisiaid, yn defnyddio'u Cymraeg mewn ystod o gyd-destunau cymdeithasol ac anffurfiol, yn elfen yr un mor bwysig o'r strategaeth i ddatblygu hyfedredd ieithyddol. Mae angen pwyslais eglur ar weithgareddau cymdeithasol ac anffurfiol yn y Gymraeg er mwyn ategu'r datblygiadau i'r cwricwlwm a gynigir. Ar brydiau, bydd achlysuron yn codi pan mai cyfyngedig fydd y cwricwlwm cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, a bydd cymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol Cymraeg yn angenrheidiol i atgyfnerthu'r egwyddor sylfaenol a welir yn y Model Datblygu Sgiliau. Gallai cangen o'r Coleg, neu bartneriaid eraill fel y bo'n briodol, fod yn gyfrifol am gefnogi'r gweithgareddau hyn. Bydd partneriaid fel Mentrau Iaith, yr Urdd a sefydliadau cymunedol eraill yn hanfodol o ran sicrhau bod gweithgareddau deniadol yn cael eu datblygu i adlewyrchu ystod eang o ddiddordebau. Yn gysylltiedig ag aelodaeth o'r Coleg, mae yr un mor bwysig mynd ati i gefnogi amgylchedd ac ethos ddwyieithog yn y sefydliad addysg bellach a'r gweithle, gan atgyfnerthu'r nod o gael cyfleoedd i siarad Cymraeg. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen cryfhau'r ymrwymiad a'r gefnogaeth i ddysgwyr ôl-16 gan bartneriaid, a chael cefnogaeth Llywodraeth Cymru i hynny.

35. Mae angen dull cydlynus o farchnata a hyrwyddo darpariaeth ddwyieithog ôl-16, ac mae hyn yn wir yn benodol yng nghyd-destun hyfforddiant a chyrsiau galwedigaethol. Mae angen cynllun marchnata penodol i dargedu dysgwyr posib (yn enwedig y rhai sy'n 14-16 oed) er mwyn amlinellu manteision astudio galwedigaethol yn ddwyieithog. Byddai angen i gynllun o'r fath gydlynu gweithgareddau nifer o bartneriaid allweddol yn y maes hwn gan gynnwys y Llywodraeth, Gyrfa Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Byddai angen i'r gweithgareddau marchnata hefyd ystyried sut i dargedu dysgwyr posib sy'n aeddfed a/neu yn y gweithlu eisoes. Bydd angen iddynt gynnwys negeseuon wedi'u paratoi'n ofalus am fanteision sgiliau dwyieithog, a lle bo'n briodol, mynd i'r afael â syniadau negyddol a allai fod gan bobl.

36. Er mwyn cefnogi'r gweithgareddau marchnata hyn, mae angen i ddysgwyr allu canfod pa gyrsiau sydd ar gael, felly byddai datblygu chwilotydd neu gronfa ddata o gyfleoedd hyfforddi/cyrsiau dwyieithog cenedlaethol yn fuddiol. Ar hyn o bryd, mae modd canfod y wybodaeth hon, i raddau, ym mhrosbectysau sefydliadau addysg bellach a gwefannau a thaflenni darparwyr prentisiaethau ond mae anghysondeb o ran pa mor hygyrch yw'r wybodaeth a sut y caiff ei chyflwyno. Byddai chwilotwr cyrsiau cenedlaethol ar-lein yn ategu'r gweithgareddau marchnata sydd ar waith eisoes. Mae achos dros greu un

chwilotwr cyrsiau/hyfforddiant cenedlaethol a fyddai’n cynnwys yr holl ddarpariaeth, beth bynnag yw iaith y ddarpariaeth honno, a phetai model o’r fath yn cael ei ddatblygu byddai sicrhau eglurder ar ddarpariaeth ddwyieithog yn hanfodol. Dylid gweithredu’r cam hwn ar y cyd â phartneriaid.

37. Un elfen o gefnogi dysgwyr i ymgymryd â dysgu galwedigaethol yn ddwyieithog yw darparu gwybodaeth, ac mae’n annhebygol y bydd darparu gwybodaeth yn ddigonol ynddo’i hunan. Ategir hyn gan y gwaith sydd wedi’i wneud ar agweddau myfyrwyr. Cynigiwn y dylid datblygu gweithgareddau megis cynllun Llysgenhadon Dysgwyr, a fyddai’n gwneud defnydd o fodelau rôl o blith dysgwyr yn y sectorau Addysg Bellach a Phrentisiaethau. Byddai gan y llysgenhadon hyn ran allweddol i’w chwarae mewn deunyddiau marchnata drwy gynrychioli teithiau dysgwyr o amrywiaeth o gefndiroedd – gan ei gwneud yn glir i ddysgwyr ledled y wlad bod dysgwyr fel nhw wedi cael budd o ddewis elfennau o astudio’n ddwyieithog. Er mwyn bod yn llwyddiannus, byddai’r cynllun hefyd yn cynnwys dysgwyr a chanddynt ystod o sgiliau iaith er mwyn annog dysgwyr i fanteisio ar ddarpariaeth ar bob lefel o’r pyramid.

38. I gefnogi’r Llysgenhadon Dysgwyr, awgrymwn y dylid cynnig aelodaeth o’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddysgwyr y colegau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau. Byddai hyn yn rhoi mynediad i ddysgwyr at ystod eang o adnoddau Cymraeg a chymuned ehangach i weithio a rhyngweithio gyda nhw.

39. Yn gysylltiedig ag aelodaeth o’r Coleg, mae’n bwysig mynd ati i gefnogi amgylchedd dwyieithog yn y sefydliad Addysg Bellach neu’r gweithle. Mae sicrhau bod dysgwyr yn gwneud defnydd o’u Cymraeg mewn ystod o gyd-destunau cymdeithasol ac anffurfiol yn elfen bwysig o’r strategaeth hon. Mae angen pwyslais eglur ar weithgareddau cymdeithasol ac anffurfiol yn Gymraeg er mwyn ategu’r datblygiadau cwricwlwm sy’n cael eu cynnig. Gallai cangen o’r Coleg, neu bartneriaid eraill fel y bo’n briodol, fod yn gyfrifol am gefnogi’r gweithgareddau hyn. Bydd partneriaid fel Mentrau Iaith, yr Urdd a sefydliadau cymunedol eraill yn hanfodol o ran sicrhau bod gweithgareddau deniadol yn cael eu datblygu i adlewyrchu ystod eang o ddiddordebau.

40. Wrth i ddysgwyr fagu sgiliau a hyder, mae achos amlwg dros gydnabod y sgiliau dwyieithog hyn ar ffurf briodol. Gall dysgwyr ym maes Addysg Uwch ymgeisio am Dystysgrif Sgiliau Iaith sydd wedi’i hachredu gan CBAC ar Lefel 6, a gellid datblygu model addas ar Lefel 3 i gydnabod sgiliau cyfrwng Cymraeg dysgwyr. Bydd datblygu model o’r fath yn cymryd amser er mwyn sicrhau ystyriaeth i wahanol elfennau, gan gynnwys y potensial o ddatblygu bathodynnau agored i gydnabod sgiliau Cymraeg a dwyieithog dysgwyr ar bob lefel. Gallai hyn hefyd gynnwys gweithgareddau ffurfiol fel ymwybyddiaeth iaith a gwaith a wneir drwy’r Gymraeg neu’n ddwyieithog, a/neu gael ei ddatblygu fel ffordd o gydnabod cyfranogiad dysgwyr mewn gweithgareddau Cymraeg a dwyieithog anffurfiol.

41. Bydd nifer o ddysgwyr yn mynd ymlaen i astudio ar lefel Addysg Uwch ac felly bydd angen pwyslais pellach i ddatblygu'r llwybrau dilyniant hyn.

42. Mae dysgwyr yn haeddu cydnabyddiaeth am lwyddo ar lefel ragorol. Mae nifer o wobrwyon i ddysgwyr eisoes yn bodoli ac mae potensial i ategu'r gweithgarwch hwn ar gyfer dysgwyr sy'n astudio'n ddwyieithog. Gellid dyfarnu'r rhain ar lefel darparwr, yn rhanbarthol neu hyd yn oed yn genedlaethol, gyda golwg ar gefnogi a gwella profiad y dysgwr ymhellach. Gallai hyn adeiladu ar brofiad a llwyddiant sylweddol model WorldSkills ar gyfer cydnabod llwyddiant dysgwyr.

**Capasiti Staffio**

**Nod: Sicrhau bod yr holl staff sydd â sgiliau yn y Gymraeg yn cael cyfle i ddatblygu'r sgiliau hyn ac i'w defnyddio mewn cyd-destun addysgol a chymdeithasol gyda dysgwyr. Cefnogi staff sydd am ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg.**

**Nod: Sicrhau bod gan pob pwnc sy'n cael ei flaenoriaethu ar gyfer datblygu ddigon o staff dwyieithog i ddysgu ledled Cymru**

43. Yr her gyntaf o ran staff yn y sectorau Addysg Bellach a Phrentisiaeth yw mapio'r gweithlu presennol yn effeithiol. Er bod tipyn mwy o bwyslais wedi bod yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar nodi aelodau o staff sy'n dysgu/yn asesu'n ddwyieithog, mae'r data yn anghyflawn ac yn anghyson. Nid yw'n llwyddo ymhob achos i adlewyrchu'r unigolion hynny sydd yn dymuno gallu dysgu/asesu yn Gymraeg ond nad ydynt yn teimlo'n ddigon hyderus i wneud hynny ar hyn o bryd. Mae angen cynnal ymarferiad mapio cynnar a manwl ar draws y sectorau Addysg Bellach a Phrentisiaeth. Gellid cynnal yr ymarferiad hwn drwy'r darparwyr unigol a'u cynlluniau strategol, y gwaith cynllunio ar gyfer cynllun *Cymraeg Gwaith* a, lle bo'n briodol, y cynlluniau pynciol unigol (gweler Darpariaeth isod). Gellid casglu gwybodaeth yn unol â gofynion adrodd blynyddol Safonau'r Gymraeg. Byddai dod â'r wybodaeth sydd ar gael ynghyd yn sefydlu gwaelodlin ac yn golygu y bydd modd nodi'r adnoddau dynol ac ariannol sydd eu hangen i sicrhau staff digonol i ddysgu ac asesu'n ddwyieithog.

44. Mae cynllun *Cymraeg Gwaith* y cyfeirir ato uchod wedi cael croeso gan y sefydliadau Addysg Bellach sydd wedi cael budd o'r cynllun yn ystod ei ddwy flynedd gyntaf. Rydym wedi cael trafodaethau cychwynnol gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, gyda golwg ar gysylltu cynllun *Cymraeg Gwaith* yn uniongyrchol â'r cynigion sy'n codi o'r strategaeth hon. Ein dealltwriaeth ni yw bod y Ganolfan wedi awgrymu eisoes wrth sefydliadau Addysg Bellach ei bod yn disgwyl mwy o recriwtio strategol i'r cynllun. Yn y cyd-destun hwn, dylid cefnogi cynllun i ddatblygu sgiliau staff yn y Gymraeg dros y tymor canol. Yn amodol ar werthuso, gellid seilio hyn ar gynllun *Cymraeg Gwaith*. Gellid rhoi union hyd a gofynion y cynllun hwn ar sail mwy cadarn yn dilyn yr ymarferiad mapio a amlinellir uchod.

45. Bydd *Cymraeg Gwaith* neu gynllun dilynol yn cefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau, a thrwy gyfuno'r cynllun hwn â datblygiadau a gaiff eu hyrwyddo gan y darparwyr eu hunain, rhagwelwn y bydd nifer sylweddol o staff sy'n newydd i ddysgu'n ddwyieithog yn cael eu cefnogi mewn sefydliadau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau. Er mwyn gwella eu sgiliau proffesiynol a datblygu eu dealltwriaeth o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n codi gyda

dysgu'n ddwyieithog, bydd angen cynnig rhaglen ddatblygu staff genedlaethol benodol. Gallai rhaglen o'r fath hefyd gynnwys gweithgareddau addas ar gyfer targedu staff newydd. Y cam cyntaf fyddai pennu hyd a lled gofynion y ddau sector cyn symud ymlaen i bennu cynnwys rhaglen o'r fath.

46. Er mwyn annog staff i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg, gellid sefydlu cynllun Llysgenhadon Staff a fyddai'n ategu cynlluniau sy'n weithredol eisoes mewn rhai sefydliadau Addysg Bellach. Yma byddem yn dod o hyd i hyrwyddwyr – yn sicr ymhob darparwr ac o bosib ymhob adran a/neu dîm gweinyddol. Byddai'r llysgenhadon hyn yn cael eu defnyddio fel eiriolwyr ar gyfer datblygiadau dwyieithog, i gefnogi eu cydweithwyr i ddatblygu gweithgareddau dwyieithog cwricwlaidd a chymdeithasol, ac i weithredu fel modelau rôl. Yn dilyn y patrwm a osodir gan y llysgenhadon ymhlith y dysgwyr, bydd sicrhau ystod eang o lysgenhadon o gefndiroedd amrywiol yn hanfodol i lwyddiant y cynllun hwn.

47. Er y bydd rhai o staff dysgu dwyieithog y dyfodol yn dod o'r gweithlu presennol, bydd rhai eraill yn newydd i fyd Addysg Bellach a Phrentisiaeth. Mae sicrhau bod y Dystysgrif Addysg i Raddedigion (Addysg Bellach) yn paratoi staff yn effeithiol ar gyfer gweithredu'n ddwyieithog yn hanfodol. Byddai nodi modelau addas o arfer gorau i wella cyfleoedd dwyieithog yn rhaglen y Dystysgrif Addysg i Raddedigion (Addysg Bellach) yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithlu dwyieithog.

48. Ymhellach, cynigiwn y dylid ystyried cymelliadau penodol i ddysgu'n ddwyieithog ar gyfer y rhai sy'n gwneud y Dystysgrif Addysg i Raddedigion (Addysg Bellach). Ar hyn o bryd, mae bwrsariaethau ar gael ar gyfer nifer o bynciau blaenoriaeth, felly byddai modd dilyn model tebyg ar gyfer cynnig bwrsariaethau i'r rhai fyddai'n gallu dysgu'n ddwyieithog.

49. Mae'n bosib iawn y bydd mapio capasiti staff yn amlygu bylchau penodol o ran capasiti staffio ledled y sectorau Addysg Bellach a Phrentisiaethau. Yn amodol ar ganlyniadau'r ymarferiad mapio, dylid ystyried rhyddhau cyllid i gefnogi'r gwaith o greu swyddi darlithwyr neu hyfforddwyr dwyieithog newydd. Cam gweithredu wedi'i dargedu ar gyfer y tymor canol fyddai hwn a byddai angen ystyried yr union ofynion yn ofalus yng ngoleuni'r ymarferiad mapio er mwyn sicrhau effeithiolrwydd a chynaliadwyedd hirdymor swyddi o'r fath.

50. Mewn rhai meysydd, bydd nifer o staff profiadol yn dysgu'n ddwyieithog mewn un darparwr. Mewn meysydd a darparwyr eraill, mae'n bosib y bydd unigolion ar wasgar yn ddaearyddol a/neu fesul pwnc. Gallai ystod o weithgareddau cenedlaethol a rhanbarthol i rannu arfer gorau ymhlith staff sy'n dysgu ac yn asesu'n ddwyieithog gefnogi'r unigolion hyn. Cynigiwn hefyd y dylid cefnogi staff drwy gynnwys cyfle iddynt ymuno â chynllun Darlithwyr Cysylltiol y Coleg Cymraeg.

51. Prif bwyslais y strategaeth hon yw'r sectorau Addysg Bellach a Phrentisiaeth. Fodd bynnag, mae darpariaeth Addysg Uwch mewn sefydliadau Addysg Bellach yn rhan gynyddol o'r tirlun Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol, ac mae'n debygol o gynyddu eto.

Dylid gofyn i'r Coleg Cymraeg yn benodol gefnogi graddau sylfaen dwyieithog mewn sefydliadau Addysg Bellach drwy grantiau pynciol. Gellid defnyddio'r grantiau pynciol hyn i ran-ariannu swyddi dysgu.

52. Bydd meithrin cymdeithas ymhlith y staff yn bwysig er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu llawn botensial o ran cefnogi dysgwyr dwyieithog. Cynigiwn gyflwyno gwobrau staff am ddysgu a chymorth dwyieithog. Gallai'r rhain fod yn wobrau newydd neu ategu cynlluniau presennol ar lefel darparwr, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol. Dylai'r gwobrau hyn hefyd gydnabod aseswyr ac arholwyr fel y bo'n briodol.

53. Mae sicrhau carfan addas o staff i gefnogi dysgwyr yn elfen allweddol o'r Cynllun Gweithredu hwn. Fodd bynnag, os nad oes aseswyr cymwys, mae'r system yn annhebygol o sicrhau'r twf sy'n cael ei ragweld. Mae angen cynnal ymarferiad mapio cynnar o aseswyr ansawdd mewnol, arholwyr ac aseswyr allanol er mwyn canfod unrhyw fylchau o ran capasiti dwyieithog. Gallai hyn gydblethu â gwaith sy'n cael ei gyflawni gan Gyngor y Gweithlu Addysg.

54. Cynigiwn ymhellach y dylid ystyried creu cronfa ddata genedlaethol o unigolion cymwys ochr yn ochr â datblygu Academi Asesu Genedlaethol i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau a nodir gan yr ymarferiad mapio.

**Darpariaeth**

**Nod: Sicrhau ystod eang o ddarpariaeth ddwyieithog (gan ddatblygu rhuglder, hyder, dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth iaith) ar draws ystod o ddisgyblaethau ac ardaloedd daearyddol**

55. Bydd gwella darpariaeth ddwyieithog yn sylweddol ar draws ystod o leoliadau a phynciau yn dasg tymor canol a bydd gofyn am waith cynllunio sylweddol a gofalus i sicrhau bod y ddarpariaeth sy'n cael ei datblygu yn atyniadol i ddysgwyr (ac felly yn gallu bod yn gynaliadwy yn yr hirdymor). Yn y lle cyntaf, dylid nodi pynciau blaenoriaeth a rhoi sylw i'r meysydd hyn yn y 12-18 mis cyntaf o weithgarwch.

56. Cynigir y meysydd canlynol fel blaenoriaethau cychwynnol:

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Gofal Plant
- Gwasanaethau Cyhoeddus

57. Fe allai gwaith mapio manwl a thrafodaethau gyda darparwyr a sefydliadau Addysg Bellach unigol nodi meysydd posib eraill ar gyfer eu datblygu'n gynnar, ac ni ddylid tybio bod y blaenoriaethau yn gyfyngedig i'r hyn a nodir uchod. Mae meysydd eraill y gellid ystyried eu datblygu yn cynnwys: Busnes, Chwaraeon a Hamdden, Amaeth, Adeiladu, Diwydiannau Creadigol.

58. Bydd gofyn am ddealltwriaeth fanwl o ddatblygiad posib pob pwnc. Bydd angen sefydlu grwpiau arbenigol ymhob maes i gynghori ar ddatblygiadau ac i ddatblygu gweledigaeth

genedlaethol ar gyfer y pwnc. Bydd y weledigaeth hon yn adlewyrchu'r 'model pyramid' ac yn amlinellu'r model a gynigir ar gyfer y pwnc. Ar ôl cytuno ar drefniadaeth strategol y pwnc, cynigiwn y dylid llunio cynllun pwnc-wrth-bwnc sy'n mapio'r datblygiadau angenrheidiol gan sefydliadau addysg bellach/darparwyr prentisiaethau.

59. Er mwyn cefnogi'r datblygiadau hyn, bydd gofyn am adnoddau i gefnogi darparwyr lle na bu darpariaeth ddwyieithog yn hanesyddol, neu lle bu'n brin. Byddai cronfa datblygu strategol i gefnogi darparwyr i wella dealltwriaeth ieithyddol a hyder ieithyddol, mewn ffordd sy'n gyson â'r strategaeth gyffredinol ar gyfer y pwnc, yn ffordd o ymateb i'r anawsterau yn y rhwydwaith o ddarparwyr.

60. Mae achos dros ystyried hefyd sut y gellir cynnwys sgiliau dwyieithog fel rhan o raglen astudio. Mewn rhai achosion, bydd hyn yn gymharol syml fel rhan o waith datblygu cwricwlwm. Mewn eraill, fe allai fod mwy o heriau. Cynigiwn felly y dylid creu cynllun peilot o raglen astudio estynedig ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno gwella eu sgiliau dwyieithog mewn pwnc sy'n flaenoriaeth, gydag elfen o brofiad gwaith dwyieithog.

61. Ar gyfer sefydliadau Addysg Bellach neu ddarparwyr lle mae bwriad cefnogi datblygiad sgiliau proffesiynol dwyieithog, hynny yw lle mae'r dysgu a'r asesu yn Gymraeg i raddau helaeth neu'n gyfan gwbl, dylai cyllido barhau mewn fformat addas. Yn yr hirdymor, mae angen cydnabod yn briodol gostau ychwanegol darparu swm sylweddol o ddarpariaeth ddwyieithog. Bydd hyn hefyd yn cefnogi gwaith cynllunio busnes darparwyr wrth iddynt geisio gwella eu darpariaeth ddwyieithog.

62. Mae'r uchelgais o ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i bob dysgwr yn mynd y tu hwnt i'r pynciau blaenoriaeth a nodwyd uchod. O ganlyniad, bydd y gwaith o ddatblygu deunyddiau dysgu cyfunol o ansawdd i gefnogi darpariaeth ymwybyddiaeth iaith yn elfen hanfodol o ran cefnogi'r strategaeth hon.

63. Rhaid i'r gwaith ar ddarpariaeth ddigwydd ar sail data cadarn. Er bod gwaith sylweddol wedi'i wneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf er mwyn cael eglurder ar y gofynion data yn LLWR, cynigiwn y dylid datblygu canllawiau eglur a phendant pellach, a hyfforddiant ar-lein o bosib, i sicrhau bod data'n cael ei gofnodi'n gywir ac yn gyson yn genedlaethol.

64. Mae'r cynigion uchod yr un mor berthnasol i ddarparwyr prentisiaethau ag y maent i sefydliadau Addysg Bellach, ond rydym wedi nodi angen penodol i ganolbwyntio ar brentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Bydd mapio'r ddarpariaeth prentisiaethau bresennol yn gynnar yn darparu darlun clir o'r sefyllfa bresennol; ymhellach, cynigiwn ddefnyddio'r ymarferiad mapio hwn fel sail ar gyfer nodi meysydd lle gellid datblygu prentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog newydd. Dylid sicrhau eglurder ynghylch sut y gellir ariannu'r datblygiadau newydd hyn.

**Adnoddau**

**Nod: Sicrhau ystod eang o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog hygyrch o ansawdd i gefnogi dysgwyr**

65. Mae prinder adnoddau Cymraeg addas yn cael ei nodi fel rhwystr sylweddol i ddysgwyr a darpar ddysgwyr fel ei gilydd wrth drafod astudio'n ddwyieithog. Mae'n hanfodol i lwyddiant y strategaeth hon bod adnoddau newydd sylweddol yn cael eu datblygu i gefnogi astudio'n dwyieithog. Mae camau cychwynnol wedi'u cymryd eisoes fel rhan o'r gwaith adnoddau mewn saith maes blaenoriaeth o dan awenau'r Grŵp Cynghori. Dylai canlyniadau'r gwaith hwn fod yn sail ar gyfer cynllun datblygu adnoddau tymor canol.

66. Mae datblygu adnoddau o ansawdd yn rhan o'r ateb, ond rhaid i'r adnoddau hyn hefyd fod yn hygyrch i ddysgwyr. Y cam cyntaf tuag at wella hygyrchedd fyddai datblygu llyfrgell (adnoddau) genedlaethol lle gall dysgwyr o bob rhan o'r sectorau Addysg Bellach a Phrentisiaeth gael mynediad at ddeunyddiau Mynediad Agored i gefnogi eu hastudiaethau. Dylid sicrhau trwyddedau agored i adnoddau'r llyfrgell, e.e. CC BY-SA(-NC), fel y gall addysgwyr yn genedlaethol ddefnyddio ac addasu'r adnoddau fel y bo'n briodol. Bydd curadu a chyflwyno'r adnoddau hyn yn hanfodol ac yn gofyn am staff arbenigol. Byddai angen ystyried unrhyw ddatblygiadau cenedlaethol o ran llwyfannu deunyddiau yn fwy cyffredinol wrth ddatblygu llyfrgell o'r fath.

67. Mae llawer o adnoddau a ddefnyddir gan ddysgwyr heddiw yn adnoddau e-ddysgu. Cynigiwn y dylid sefydlu grŵp e-ddysgu arbenigol bach i gynghori ar raglen o gomisiynu adnoddau e-ddysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog gwreiddiol.

68. Mae arbenigedd sylweddol yn y sectorau yng Nghymru a'r tu hwnt o ran rhannu a datblygu adnoddau e-ddysgu drwy gyfrwng y Saesneg. Rydym wedi nodi nifer o feysydd o arfer gorau, er enghraifft gwaith y Consortiwm Dysgu Cyfunol dan arweiniad Heart of Worcestershire College, a mentrau gan nifer o sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru. Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r gwaith o gyfieithu adnoddau presennol o ansawdd uchel sy'n cael eu defnyddio'n helaeth yng Nghymru.

69. Mae nifer o apiau wedi cael eu datblygu yn Gymraeg yn ddiweddar er mwyn cefnogi astudio'n ddwyieithog. Dylid cynnal asesiad manwl o ddefnyddioldeb yr apiau hyn, a lle bo'n briodol, comisiynu apiau newydd er mwyn adeiladu ar lwyddiant y prosiectau hyn.

**Asesu a Chymwysterau**

**Nod: Sicrhau bod dysgwyr sy'n dymuno cael eu hasesu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn gallu gwneud hynny heb gyfyngiadau**

70. Trown yn awr at sicrhau bod cymwysterau ac asesiadau sy'n cael eu cwblhau yn ystod y rhaglen astudio ar gael yn ddwyieithog. Mae'r Coleg eisoes yn gweithio mewn partneriaeth â Chymwysterau Cymru i'r perwyl hwn. Mae gan Gymwysterau Cymru bolisi sy'n datgan bod disgwyl i bob cymhwyster sy'n cael ei gymeradwyo fod ar gael yn Gymraeg. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'r disgwyliad hwn yn cynnwys nifer

sylweddol o gymwysterau sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd yn y sector ôl-16. Er mwyn i ddysgwyr fod yn hyderus i ymgymryd ag elfennau o'u hastudiaethau yn Gymraeg, rhaid iddynt allu bod yn sicr bod modd cwblhau'r asesiadau yn eu dewis iaith. Mae Cymwysterau Cymru yn cynnig grant i gymell cyrff dyfarnu i gynnig rhagor o gymwysterau dwyieithog. Bydd ymarferiad mapio ffurfiol, gan weithio gyda Chymwysterau Cymru, yn sail ar gyfer nodi blaenoriaethau y dylid rhoi sylw iddynt, yn y lle cyntaf, drwy'r grant hwn.

71. Yn ystod y blynyddoedd nesaf, bydd ystod o gymwysterau yn cael eu hadolygu gan Gymwysterau Cymru, ac mae'r tirlun cymwysterau hefyd yn debygol o newid ledled gwledydd Prydain. Arweiniodd yr adolygiad o'r sector Iechyd a Gofal at greu 19 o gymwysterau newydd a fydd ar gael yn Gymraeg. Credwn, ym mwyafrif llethol yr achosion, y gellir disgwyl yn rhesymol y bydd pob cymhwyster newydd a ddatblygir fel rhan o'r broses bresennol o adolygu cymwysterau ar gael yn ddwyieithog. Mae hyn yn gofyn nid yn unig am ddarparu aseiniadau yn ddwyieithog, ond prosesau eglur a thryloyw ar gyfer asesu'r gwaith yn effeithiol a recriwtio nifer digonol o aseswyr mewnol ac allanol cymwys. Bydd gweithredu effeithiol gan Gymwysterau Cymru yn hanfodol o ran sicrhau llwyddiant yn hyn o beth.

72. Un rhan o becyn cymwysterau yw aseiniadau. Fel rheol, caiff adnoddau eu paratoi i gefnogi dysgwyr wrth iddynt weithio tuag at gymhwyster. Mae amrywiaeth sylweddol o bwnc i bwnc o ran y ddarpariaeth o adnoddau dwyieithog. Cynigiwn y dylid darparu cyllid prosiect pellach i gefnogi datblygiad adnoddau dwyieithog penodol ar gyfer y rhai sy'n paratoi at gymwysterau. Byddai hyn yn ychwanegiad defnyddiol at y grant y mae Cymwysterau Cymru yn ei ddarparu'n flynyddol. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i sicrhau nad yw darparwyr sy'n llwyddo i gefnogi dysgwyr i gwblhau cymwysterau yn ddwyieithog yn dod o dan anfantais oherwydd strwythur prisio'r cymwysterau hynny.

73. Er y bydd gweithio gyda Chymwysterau Cymru dros gyfnod o amser yn gwella'r sefyllfa'n sylweddol o ran cymwysterau newydd, mae nifer fawr o gymwysterau a fydd yn dal i gael eu cynnig yng Nghymru yn seiliedig ar y patrwm presennol o gymwysterau a chyrff dyfarnu. Byddwn yn gweithio gyda chyrff dyfarnu nad ydynt yn cynnig cymwysterau dwyieithog i sicrhau, lle bo galw eglur am gymwysterau o'r fath yng Nghymru, bod pob dysgwr sy'n dymuno hynny yn gallu cael ei asesu yn Gymraeg a/neu'n ddwyieithog.

74. Yn y cyfamser, mae'n bosib y bydd rhai cymwysterau nad ydynt yn cael eu cynnig yn ddwyieithog. Cynigiwn er cysondeb â Safonau'r Gymraeg y dylid datblygu canllawiau arferion gorau ar sut i ymdrin yn effeithiol â gwaith i'w asesu sydd wedi'i gwblhau yn Gymraeg pan nad yw'r cymhwyster yn cael ei gynnig yn ddwyieithog.

**Cyflogwyr**

**Nod: Sicrhau bod cyflogwyr yn deall, yn datblygu ac yn gwerthfawrogi sgiliau gweithle dwyieithog.**

75. Mae nifer fawr o ddysgwyr yn ymgymryd â rhaglenni astudio gyda'r bwriad eglur o sicrhau gwaith ar ôl cael cymhwyster. Mae tystiolaeth gynyddol yn awgrymu bod cyflogwyr yn gweld prinder sgiliau dwyieithog wrth recriwtio, felly mae cyfraniad hanfodol gan gyflogwyr i'w wneud o ran datblygu darpariaeth ddwyieithog sylweddol yn y sectorau Addysg Bellach a Phrentisiaeth. Mae datblygu sgiliau dwyieithog yn gyfle i wella a meithrin cysylltiadau rhwng addysg a diwydiant.

76. Byddwn yn tynnu sylw at enghreifftiau o gyflogwyr sy'n arddangos arfer da o ran cydnabod sgiliau dwyieithog yn y gweithle a chyflogi dysgwyr dwyieithog er budd eu busnes. Gan weithio gyda darparwyr i ganfod cyflogwyr lleol sy'n gwneud defnydd o sgiliau dwyieithog mewn gwahanol sectorau, byddwn yn gwneud defnydd llawn o'r esiamplau hyn wrth hyrwyddo gwerth astudio'n ddwyieithog.

77. Cynigiwn ymhellach y dylid gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Gyrfa Cymru, i ddatblygu cronfa ddata genedlaethol o gyflogwyr sy'n cydnabod manteision sgiliau proffesiynol dwyieithog.

78. Er bod rhai cyflogwyr yn cydnabod manteision sgiliau dwyieithog eisoes, mae'n bosib nad yw pawb yn llawn werthfawrogi'r manteision busnes hyd yma. Gan weithio gyda phartneriaid, byddwn yn codi ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr o fanteision prentisiaethau dwyieithog a gweithwyr dwyieithog.

79. Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn dadansoddi heriau economaidd rhanbarthol a meysydd twf ac yn mapio sgiliau y bydd eu hangen yn y dyfodol mewn marchnadoedd llafur rhanbarthol. Byddwn yn gweithio gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ledled Cymru i nodi a defnyddio gwybodaeth marchnad lafur yng nghyd-destun sgiliau yn y Gymraeg er mwyn codi ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid a chyflogwyr o bwysigrwydd sgiliau dwyieithog yng ngwaith cynllunio'r gweithlu.

80. Byddwn hefyd yn defnyddio gwybodaeth marchnad lafur ac yn ymateb i'r cynlluniau sgiliau rhanbarthol fel sail i brosiectau a gweithgareddau a ddatblygir i gynorthwyo uchelgais a chyflogadwyedd dysgwyr.

81. Bydd datblygu a chryfhau rhwydwaith o gyflogwyr dwyieithog dros gyfnod o amser yn gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cynllunio ar gyfer gweithlu dwyieithog. Fodd bynnag, oherwydd amrywio rhanbarthol a sectorol o ran sgiliau a defnydd o'r Gymraeg, bydd nifer fawr o sectorau yn dal i fod angen arweiniad a chymorth. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i gynnig cymorth i gyflogwyr mewn sectorau penodedig sydd ar hyn o bryd heb y sylfaen sgiliau yn y Gymraeg sydd ei hangen i gynnig rhaglenni dwyieithog er mwyn sicrhau, lle bo galw eglur gan ddysgwyr, bod pob cyflogwr sy'n dymuno cefnogi prentisiaethau yn ddwyieithog yn gallu gwneud hynny.

82. Er mwyn gwella prentisiaethau dwyieithog, mae gofyn am newid sylweddol o ran darpariaeth sy'n cael ei harwain gan alw. Gellid ystyried cyflwyno cymelliadau penodol ar gyfer cyflogwyr sy'n recriwtio prentisiaid dwyieithog.

83. Mae'r camau gweithredu a amlinellwyd hyd yma yn canolbwyntio ar ddarpariaeth bresennol o ran prentisiaethau a rhaglenni prentisiaeth. Mae'n bosib iawn bod meysydd lle gellir datblygu fframweithiau prentisiaethau a/neu raglenni dwyieithog newydd. Byddwn yn mynd ati'n barhaus i nodi cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau(/fframweithiau) newydd a chefnogi'r datblygiadau hyn fel y bo'n briodol gyda chefnogaeth strategol, a lle bo'n ymarferol, gyda chyllid grant.

**Strwythur**

84. Mae'r strategaeth a amlinellir uchod yn feiddgar ac yn uchelgeisiol. Mae yma ystod o gamau a fydd yn cael effaith sylweddol ar y sectorau Addysg Bellach a Phrentisiaeth yn ystod y blynyddoedd nesaf ac yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at gyrraedd nod y Llywodraeth o filiwn o siaradwyr. O ystyried maint a chymhlethdod y dasg o'n blaenau, cynigiwn y dylai aelodau o'r Grŵp Cynghori gefnogi grŵp llywio lefel uchel, mewn fformat i'w benderfynu rhwng y Coleg a'r sectorau Addysg Bellach a Phrentisiaeth.

85. I ategu'r strwythur llywio lefel uchel, ac i hwyluso cyfathrebu ar bob lefel yn y sectorau Addysg Bellach a Phrentisiaeth, bydd y Coleg yn sefydlu fforwm i sicrhau cyfle ffurfiol i ymgynghori â rhanddeiliaid, yn ogystal ag ymwneud yn barhaus â sefydliadau unigol, darparwyr hyfforddiant a phartneriaid eraill. Yn ogystal â chytuno ar berthynas newydd gyda CholegauCymru, mae'r Coleg hefyd yn datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW).

## Adran Pedwar: Mesur Llwyddiant

86. Cynllun hirdymor yw'r strategaeth a amlinellir yma, ac felly fydd ei llwyddiant ddim ond yn amlwg yn yr hirdymor. Fodd bynnag, cynigir cyfres o fesuryddion isod fel sail ar gyfer trafodaethau ar gynnydd o ran cyflawni'r nodau hirdymor. Caiff y mesuryddion hyn eu datblygu ymhellach gan adnabod gwaelodlin erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2019/20.

**Profiad y Dysgwr**

i) Nifer y dysgwyr sy'n astudio'n helaeth yn Gymraeg neu'n ddwyieithog

ii) Nifer y dysgwyr sy'n magu eu hyder i weithio yn Gymraeg neu'n ddwyieithog

iii) Nifer y dysgwyr sy'n astudio unedau deall iaith

**Darpariaeth**

i) Yr amrediad o bynciau sy'n cael eu darparu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog

ii) Y pynciau blaenoriaeth sy'n cael eu darparu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog

iii) Gwasgariad daearyddol y pynciau sy'n cael eu darparu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog

**Capasiti Staffio**

i) Nifer y staff sy'n cael eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau dwyieithog

ii) Nifer y staff sy'n gallu dysgu'n ddwyieithog

iii) Nifer y staff sy'n dysgu'n ddwyieithog

**Adnoddau**

i) Nifer yr adnoddau dwyieithog sydd ar gael, fesul pwnc

ii) Defnydd o'r llyfrgell (adnoddau) genedlaethol

iii) Nifer yr adnoddau arloesol (e.e. apiau) a ddatblygwyd yn ddwyieithog

**Asesu a Chymwysterau**

i) Nifer y dysgwyr a asesir yn Gymraeg

ii) Nifer yr aseswyr, yr aseswyr ansawdd mewnol a'r aseswyr ansawdd

allanol sy’n gallu asesu yn ddwyieithog

iii) Nifer y cymwysterau a ddatblygwyd sy’n cael eu cynnig yn ddwyieithog yn dilyn adolygiad gan Gymwysterau Cymru

iv) Nifer y cymwysterau a gynigir i nifer sylweddol o ddysgwyr yng Nghymru nad ydynt ar gael yn ddwyieithog

**Ymwneud â Chyflogwyr**

i) Lle sgiliau yn y Gymraeg yn y cynlluniau sgiliau rhanbarthol er mwyn dylanwadu ar gynllunio ôl-16

ii) Nifer y cyflogwyr yn y gronfa ddata genedlaethol o gyflogwyr sy’n cydnabod sgiliau dwyieithog

iii) Nifer y dysgwyr sy’n mynd at gyflogwyr dwyieithog

87. Bydd monitro a gwerthuso’r gweithgareddau yn allweddol er mwyn sicrhau llwyddiant a chynaliadwyedd hirdymor y strategaeth hon, a rhaid i hyn fod yn elfen hanfodol o’r cynllun gweithredu.

## Adran Pump: Gweithredu'r Weledigaeth

88. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi gosod cylch gwaith ehangach ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol o ran cynllunio’n strategol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector ôl-16.

89. Yn seiliedig ar adroddiad y Grŵp Cynghori Addysg Bellach a Phrentisiaeth cyfrwng Cymraeg a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2018, mae'r Cynllun Gweithredu canlynol wedi'i ddatblygu, gan flaenoriaethu'r ymyraethau sy'n ofynnol. Rhennir y cyfrifoldebau gyda'r prif randdeiliaid a nodir amserlenni.

90. Mae'r cynllun yn amlygu sut mae'r ymyraethau unigol yn mynd i'r afael â'r chwe philer datblygu allweddol, a sut mae'r rhain yn ymateb i'r model datblygu sgiliau a amlinellir yn Adran Dau.

91. Mae'r camau gweithredu wedi'u grwpio o dan bedwar prif bennawd:

- Sicrhau bod dysgwyr yn cael cymorth a gwybodaeth i wneud cynnydd ar hyd y continwwm Cymraeg mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 ac ymlaen at y cyfnod ôl-19 lle bo hynny'n briodol.
- Creu gwell seilwaith i alluogi dysgwyr i gynyddu lefel y dysgu sy'n cael ei wneud drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Meithrin ac ymestyn cyfleoedd datblygu staff presennol er mwyn galluogi darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 i gynyddu lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Ymwneud yn effeithiol â chyflogwyr i sicrhau bod gwaith cynllunio sgiliau effeithiol yn digwydd.

**Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaeth**

| | |
|---|---|
| Profiad y Dysgwr | Adnoddau |
| Capasiti Staffio | Cymwysterau |
| Darpariaeth | Cyflogwyr |

| | Disgrifiad | Rhif | Cam gweithredu | Cyfrifoldebau | Amserlen | Model datblygu sgiliau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tymor byr (2018/19–2020/21) | Sicrhau bod dysgwyr yn cael cymorth a gwybodaeth i wneud cynnydd ar hyd y continwwm Cymraeg mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 ac ymlaen at y cyfnod ôl-19 lle bo hynny'n briodol. | 1.1 | Sefydlu cronfa ddata cyrsiau/cyfleoedd hyfforddiant dwyieithog. | Coleg Cymraeg/Gyrfa Cymru/Llywodraeth Cymru | Ebrill 2020 | Hyder (H)<br>Rhuglder (Rh) |
| | | 1.2 | Sefydlu cynllun marchnata i hybu cyrsiau/cyfleoedd hyfforddiant fesul ardal ddaearyddol.<br><br>Trefnu gweithgareddau penodol i gefnogi a hwyluso dilyniant. | Coleg Cymraeg/Gyrfa Cymru/NTfW /Llywodraeth Cymru | Medi 2019 | H<br>Rh |
| | | 1.3 | Gwella a datblygu'r gefnogaeth sydd ar gael i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol ac anffurfiol ymhob sefydliad. Bydd y rhain yn cynnwys:<br>• Cynyddu ymwybyddiaeth o’r cyfleoedd gan bartneriaid i bobl ifanc 16-15 mlwydd oed a datblygu perthynas gryfach gydag e.e. Mentrau Iaith, Clybiau Ffermwyr Ifanc a’r Urdd.<br>• Annog colegau i fod yn aelodau o Fforymau Iaith Gymraeg i rannu arfer da o weithgareddau mewn sefydliadau, a chynyddu ymwybyddiaeth o’r cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg yn | Addysg Bellach/Mentrau Iaith /Urdd/Llywodraeth Cymru | Mawrth 2019 | H<br>Rh<br>Dealltwriaeth (D)<br>Ymwybyddiaeth (Y) |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | gymdeithasol.<br>• Annog canolfannau Cymraeg i hyrwyddo cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio’r Gymraeg yn gymdeithasol.<br>• Datblygu cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg mewn chwaraeon yn a thu hwnt i’w addysg.<br>• Gwella’r cyswllt a’r cyfathrebu rhwng pobl ifanc ôl-16 gydag ymgyrchoedd Llywodraeth Cymru, megis Dydd Miwsig Cymru.<br>• Ystyried dulliau newydd o gysylltu gyda prentisiaid i’w cynnwys mewn gweithgareddau i’r dyfodol. | | | |
| | | 1.4 | Datblygu cynllun llysgenhadon dysgwyr. | Coleg Cymraeg/Addysg Bellach/NTfW | Hydref 2019 | H<br>Rh<br>D<br>Y |
| | | 1.5 | Rhoi aelodaeth o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddysgwyr Addysg Bellach a Phrentisiaeth gan greu’r cyswllt rhwng yr aelodaeth a’r gweithgareddau sy’n cefnogi dysgwyr y tu allan i’r amgylchedd ddysgu. | Coleg Cymraeg | Mawrth 2020 | Rh<br>H |
| | Creu gwell seilwaith i alluogi dysgwyr i gynyddu lefel y dysgu sy'n cael ei wneud drwy gyfrwng y Gymraeg. | 2.1 | Peilota rhaglen astudio estynedig, ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno gwella eu sgiliau dwyieithog, mewn un maes pwnc blaenoriaeth. | Llywodraeth Cymru/Coleg Cymraeg/Addysg Bellach | Medi 2020 | H<br>Rh |
| | | 2.2 | Mapio cymwysterau presennol yn y meysydd blaenoriaeth a nodwyd. | Coleg Cymraeg /Llywodraeth Cymru | Ionawr 2019 | Rh<br>H |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2.3 | Mapio adnoddau sy'n bodoli yn y meysydd blaenoriaeth a nodwyd. Ymateb i'r anghenion a nodir drwy ddatblygu cynllun adnoddau a fydd yn cynnwys comisiynu adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog newydd, cyfieithu neu ddiweddaru adnoddau sy'n bodoli a datblygu apiau. | Coleg Cymraeg /Llywodraeth Cymru | Ionawr 2019 | Rh<br>H |
| | | 2.4 | Sefydlu cronfa datblygiadau strategol i gefnogi darparwyr i wella dealltwriaeth ieithyddol a hyder ieithyddol. | Coleg Cymraeg | Medi 2019 | H<br>D<br>Y |
| | | 2.5 | Ymarferiad mapio o aseswyr ansawdd mewnol, aseswyr allanol ac arholwyr. | Coleg Cymraeg/NTfW | Ionawr 2020 | Rh<br>H |
| | | 2.6 | Datblygu gweledigaeth genedlaethol ar gyfer pynciau blaenoriaeth a chynnig cynllun pwnc-wrth-bwnc sy'n mapio'r datblygiadau angenrheidiol fesul sefydliad Addysg Bellach /Darparwr prentisiaeth. | Coleg Cymraeg | Ionawr 2020 | Rh<br>H<br>D<br>Y |
| | Meithrin ac ymestyn cyfleoedd datblygu staff presennol er mwyn galluogi darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 i gynyddu lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. | 3.1 | Mapio'r adnoddau staffio presennol. | Coleg Cymraeg | Medi 2020 | Rh<br>H<br>D |
| | | 3.2 | Bodloni anghenion datblygu staff ychwanegol yn y meysydd blaenoriaeth. | Llywodraeth Cymru/Coleg Cymraeg | Ebrill 2021 | Rh<br>H<br>D<br>Y |
| | | 3.3 | Nodi ysgogiadau penodol i'r rhai sy'n gwneud y Dystysgrif Addysg i Raddedigion i ddysgu yn ddwyieithog. | Llywodraeth | Medi 2019 | Rh<br>H |
| | | 3.4 | Sefydlu cynllun llysgenhadon staff i weithredu fel hyrwyddwyr ar gyfer datblygiadau dwyieithog. | Addysg Bellach | Medi 2020 | Rh<br>H |
| | | 3.5 | Cyfleoedd i staff ymuno â chynllun *Darlithwyr Cysylltiol* y Coleg Cymraeg. | Coleg Cymraeg | Medi 2019 | Rh<br>H |
| | Ymwneud yn effeithiol â chyflogwyr i sicrhau bod | 4.1 | Defnyddio gwybodaeth marchnad lafur fel sail ar gyfer y prosiectau a'r | Coleg Cymraeg/Gyrfa Cymru/Partneriaethau | Medi 2020 | Rh<br>H |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | gwaith cynllunio sgiliau effeithiol yn digwydd. | | gweithgareddau a ddatblygir i gefnogi dyheadau a chyflogadwyedd dysgwyr. | Sgiliau Rhanbarthol | | D |
| | | 4.2 | Mapio'r ddarpariaeth prentisiaethau cyfrwng Cymraeg bresennol; defnyddio hynny fel sail ar gyfer nodi meysydd lle gellid datblygu fframweithiau newydd ar gyfer prentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. | Llywodraeth Cymru | Medi 2019 | Rh<br>H<br>D |
| | | 4.3 | Codi ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr am fanteision prentisiaethau dwyieithog a gweithwyr dwyieithog. | Coleg Cymraeg /Llywodraeth Cymru | Medi 2019 | Rh<br>H<br>D |
| | | 4.4 | Codi ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid a chyflogwyr am bwysigrwydd sgiliau dwyieithog yng ngwaith cynllunio'r gweithlu. | Llywodraeth Cymru | Medi 2019 | Rh<br>H<br>D |
| | Mesur llwyddiant | 5.1 | Nodi mesuryddion priodol a dibynadwy yn seiliedig ar ganllawiau cyffredin ar gyfer llwyddiant a fydd yn dangos cyfraniad y sector ôl-16 tuag at gyflawni Cymraeg 2050. | Coleg Cymraeg /Llywodraeth Cymru | Medi 2019 | Rh<br>H<br>D<br>Y |
| | | | | | | |
| **Tymor canol (2021/22–** | Sicrhau bod dysgwyr yn cael cymorth a gwybodaeth i wneud cynnydd ar hyd y continwwm Cymraeg mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 ac ymlaen at y cyfnod ôl-19 lle bo hynny'n briodol. | 6.1 | Parhau'r cyllid ychwanegol mewn fformat addas i gydnabod costau ychwanegol darparu'n sylweddol yn ddwyieithog. | Coleg Cymraeg /Llywodraeth Cymru | 3-5 mlynedd | Rh<br>H |
| | | 6.2 | Cydnabod sgiliau Cymraeg dysgwyr drwy ddatblygu model ardystio gydag asesiad yn gysylltiedig â gweithgareddau a gynhaliwyd eisoes fel rhan o gwrs/hyfforddiant dysgwyr. | Coleg Cymraeg | 3-5 mlynedd | Rh<br>H |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 6.3 | Cydweithio â sefydliadau presennol a darparwyr addysg/hyfforddiant presennol i wobrwyo dysgwyr am eu llwyddiannau wrth astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog. | Coleg Cymraeg/Addysg Bellach/NTfW | 3-5 mlynedd | Rh<br>H<br>D<br>Y |
| | Creu gwell seilwaith i alluogi dysgwyr i gynyddu lefel y dysgu sy'n cael ei wneud drwy gyfrwng y Gymraeg. | 7.1 | Datblygu deunyddiau dysgu cyfunol o ansawdd i gefnogi darpariaeth ymwybyddiaeth iaith. | Coleg Cymraeg | 3-5 mlynedd | Rh<br>H<br>D<br>Y |
| | | 7.2 | Datblygu llyfrgell (adnoddau) genedlaethol. | Coleg Cymraeg/JISC /Llywodraeth Cymru | 3-5 mlynedd | Rh<br>H<br>D<br>Y |
| | | 7.3 | Sicrhau bod cymwysterau newydd ar gael yn ddwyieithog. | Cymwysterau Cymru | 3-5 mlynedd | Rh<br>H |
| | | 7.4 | Cyllid prosiect i gefnogi'r gwaith o ddatblygu adnoddau dwyieithog penodol ar gyfer y rhai sy'n paratoi ar gyfer cymwysterau. | Cymwysterau Cymru | 3-5 mlynedd | Rh<br>H<br>D |
| | | 7.5 | Hwyluso asesiadau cyfrwng Cymraeg pan nad yw'r cymhwyster yn cael ei gynnig yn ddwyieithog. | Coleg Cymraeg/ Cymwysterau Cymru | 3-5 mlynedd | Rh<br>H |
| | Meithrin ac ymestyn cyfleoedd datblygu staff presennol er mwyn galluogi darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 i gynyddu lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. | 8.1 | Creu swyddi darlithwyr neu hyfforddwyr dwyieithog newydd. | Coleg Cymraeg /Llywodraeth Cymru | 3-5 mlynedd | Rh<br>H<br>D<br>Y |
| | | 8.2 | Trefnu ystod o weithgareddau cenedlaethol a rhanbarthol i rannu arferion gorau ymhlith staff sy'n dysgu ac yn asesu'n ddwyieithog. | Coleg Cymraeg a chontractwyr | 3-5 mlynedd | Rh<br>H<br>D<br>Y |
| | | 8.3 | Nodi modelau addas o arferion gorau er mwyn gwella cyfleoedd dwyieithog yn sylweddol yn rhaglen y Dystysgrif Addysg i Raddedigion (Addysg Bellach) | Llywodraeth Cymru | 3-5 mlynedd | Rh<br>H |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 8.4 | Gwobrau i staff sy'n dysgu ac yn cefnogi yn ddwyieithog. | Coleg Cymraeg/Addysg Bellach | 3-5 mlynedd | Rh<br>H<br>D |
| | Ymwneud yn effeithiol â chyflogwyr i sicrhau bod gwaith cynllunio sgiliau effeithiol yn digwydd. | 9.1 | Nodi enghreifftiau o arferion gorau ymhlith cyflogwyr sy'n cydnabod sgiliau dwyieithog yn y gweithle ac yn cyflogi dysgwyr dwyieithog er budd eu busnes. | Coleg Cymraeg /Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol | 3-5 mlynedd | Rh<br>H<br>D |
| | | | | | | |
| **Hirdymor (2025/26–ymlaen)** | Creu gwell seilwaith i alluogi dysgwyr i gynyddu lefel y dysgu sy'n cael ei wneud drwy gyfrwng y Gymraeg. | 10.1 | Cefnogi graddau sylfaen dwyieithog mewn sefydliadau Addysg Bellach drwy grantiau pwnc. | Coleg Cymraeg | 5-10 mlynedd | H<br>Rh |
| | | 10.2 | Ystyried creu cronfa ddata genedlaethol o aseswyr cymwys addas a datblygu Academi Asesu Genedlaethol. | Coleg Cymraeg | 5-10 mlynedd | H<br>Rh |
| | Ymwneud yn effeithiol â chyflogwyr i sicrhau bod gwaith cynllunio sgiliau effeithiol yn digwydd. | 11.1 | Datblygu cronfa ddata genedlaethol o gyflogwyr sy'n cydnabod manteision sgiliau proffesiynol dwyieithog. | Coleg Cymraeg | 5-10 mlynedd | Rh<br>H<br>D |
| | | 11.2 | Cynnig cymorth i gyflogwyr mewn sectorau penodedig lle nad oes sylfaen sgiliau Cymraeg angenrheidiol ar hyn o bryd i gynnig rhaglenni dwyieithog. | NTfW/Coleg Cymraeg | 5-10 mlynedd | Rh<br>H<br>D |
| | | 11.3 | Cyflwyno ysgogiadau penodol i gyflogwyr sy'n recriwtio prentisiaid dwyieithog. | Llywodraeth Cymru | 5-10 mlynedd | Rh<br>H |
| | | 11.4 | Nodi cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau newydd (fframweithiau) a chefnogi'r datblygiadau hyn fel y bo'n briodol gyda chefnogaeth strategol, a lle bo'n ddichonadwy, cyllid grant. | Coleg Cymraeg | 5-10 mlynedd | Rh<br>H |

# Atodiad 1

## Aelodau'r Grŵp Cynllunio Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg a gyflwynodd yr adroddiad hwn

Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr, Coleg Cymraeg Cenedlaethol (Cadeirydd)

Barry Liles, Pennaeth, Coleg Sir Gâr

Barry Walters, Dirprwy Bennaeth, Coleg Sir Benfro

Caroline Cooksley, Cyfarwyddwr, ACT Limited

Dafydd Evans, Prif Weithredwr, Grŵp Llandrillo Menai

David Jones, Prif Weithredwr, Coleg Cambria

Karen Phillips, Dirprwy Bennaeth, Coleg y Cymoedd

Kay Martin, Pennaeth, Coleg Caerdydd a'r Fro

Nicky Gamlin, Is-Bennaeth, Coleg Gwent